

LLWYBR DYFFFRYN GWY WYE VALLEY WALK

Llwybr rhanbarthol pellter hir yw e sydd wedi hen ennill ei blwyf yw Llwybr Dyffryn Gwy. Mae'n dilyn hynt yr afon o Gas-gwent hyd at lecyn ger ei tharddle ar Bumlumon, yn uchel ym Mynyddoedd y Cambrian. Mae'r llwybr yn 136 milltir o hyd. O Gas-gwent, mae'r llwybr yn ymlwbro i'r gogledd trwy Dyndryn, Trefynwy, Y Rhosan ar Wy a Henffordd, ac yna i'r gorllewin trwy'r Gelli Gandryll ac i mewn i Bowys. Mae'r tirlun y mae'r llwybr yn mynd trwyddo yn newid o'r ceunant carreg galch dramatig yn y de, trwy gefn gwlad bryniog Swydd Henffordd, i ucheldiroedd garw Canolbarth Cymru.

Tu hwnt i'r Gelli Gandryll, mae'r daith yn ymlwbro tua'r gogledd trwy Lowes, Y Clas-ar-Wy, Bochrwyd, Erwyd (Yr Hen Orsaf), Llanfair-ym-Muallt, Y Bontnewydd-ar-Wy a Llanwrthwl i Rhaeadr Gwy. Agorwyd y 24 milltir olaf yn Hydref 2002, ac mae'n arwain tua'r gogledd i Langurig, i'r gorllewin i Bont Rhydgaled ac yna i fyny llethrau Pumlumon cyn ymuno â Llwybr Hafren yng Nghoedwig Hafren. Mae Llwybr goddefol byr yn tywys cerddwyr i fan lle gellir gweld tarddle afon Gwy. Hyd y llwybr sydd o fewn Powys yw 60 milltir.

Mae Dyffryn Gwy cyfan yn safle o heddych a harddwch arbennig, ac mae holl lannau'r afon ar ei hyd wedi eu dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Neilltuol. Dylid cofio hefyd fod hon yn ardal lle mae'r cymunedau amaethyddol sy'n byw yno yn gweithio. Felly dilynwch y Côd Cefn Gwlad.

The Wye Valley Walk is a well-established long distance regional route following the course of the river from Chepstow to near its source on Plynlimon, high in the Cambrian Mountains, a distance of 136 miles. From Chepstow the route passes northwards through Tintern, Monmouth, Ross-on-Wye and Hereford and then westwards to Hay-on-Wye and into Powys. The landscape it passes through changes from the dramatic limestone gorge of the south, through the rolling countryside of Herefordshire to the rugged uplands of Mid-Wales.

Beyond Hay-on-Wye the walk makes its way north via Llowes, Glasbury, Boughrood, Erwood (Old Station), Builth Wells, Newbridge-on-Wye and Llanwrthwl to Rhaeadr. The final 24 mile section, opened in Autumn 2002, heads north to Langurig, west to Pont Rhydgaled and then up onto the slopes of Plynlimon before joining the Severn Way in the Hafren Forest. A short linking permissive path takes walkers to a point from where the source of the Wye can be viewed. The length within Powys is 60 miles.

The whole of the Wye Valley is a special place of peace and beauty, with the entire length of the river and its banks being designated a Site of Special Scientific Interest. It should also be remembered that it is a place of work for the farming communities who live there. Please follow the Country Code.

Os oes angen mwy o wybodaeth neu gyngor arnoch ynglŷn â Llwybr Dyffryn Gwy, neu Hawliau Tramwy ym Mhowys yn gyffredinol, cysylltwch â:


Gwasanaethau Cefn Gwlad
Cyfarwyddiaeth Adfywio Cymunedol ac Economaidd
Cyngor Sir Powys
Swyddfeydd Sant Ioan
Pumffordd
Llandrindod
Powys
LD1 5ES
Ffôn: 01597 827567

Caiff y llwybr hwn ei reoli gan Barneriaeth Llwybr Dyffryn Gwy:- Cyngor Sir Henffordd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Sir Powys, Y Comisiwn Coedwigaeth ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy.

If you require further information or advice regarding the Wye Valley Walk, or Rights of Way in general within Powys, please contact:

Countryside Services
Economic and Community Regeneration Directorate
Powys County Council
St John's Offices
Fiveways
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5ES
Tel: 01597 827567

The walk is managed by the Wye Valley Walk Partnership:- Herefordshire Council, Monmouthshire County Council, Powys County Council, the Forestry Commission and the Wye Valley Area of Outstanding Natural Beauty (AONB).



CÔD CEFN GWLAD

- Mwynhewch gefn gwlad, a pharchwch ei fywyd a'i waith
- Gofalwch beidio ag achosi tân
- Caewch bob gât rydych yn ei hagar
- Cadwch eich cŵn dan reolaeth bob amser
- Cadwch at lwybrau cyhoeddus wrth groesi tir fferm
- Defnyddiwch gathiau a chamfeydd i groesi ffensys, cloddiau a walliau
- Gadewch lonydd i dda byw, cnydau a pheiriannau
- Ewch â'ch sbwriel adref
- Helpwch i gadw'r holl ddrŷ yn lân
- Diogelwch fywyd gwylt, planhigion a choed
- Byddwch yn arbennig o ofalus ar ffyrdd gwledig
- Peidiwch â gwneud sŵn diangen

THE COUNTRY CODE

- Enjoy the countryside and respect its life and work
- Guard against all risks of fire
- Fasten all gates that you open
- Keep your dogs under close control
- Keep to public paths across farmland
- Use gates and stiles to cross fences, hedges and walls
- Leave livestock, crops and machinery alone
- Take your litter home
- Help to keep all water clean
- Protect wildlife, plants and trees
- Take special care on country roads
- Make no unnecessary noise



Seiliwyd y mapiau hyn ar fapiau'r Arolwg Ordnans â chaniatâd Llyfrfa ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn trosedu yn erbyn Hawlfraint y Goron, a gall hyn arwain at erlyniad neu weithredoedd sifil. Rhif trwydded CS Powys LA090 16L 2002.

Maps based upon Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. Powys CC LA090 16L 2002.